Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.10.6 Cadw Cofnodion Cymorth Rhodd

Mae gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) ddyletswydd i sicrhau bod y cynllun Cymorth Rhodd yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac mae ganddo hawl i archwilio cofnodion Cymorth Rhodd unrhyw elusen. Y gofyniad sylfaenol yw bod unrhyw elusen sy'n rhedeg cynllun Cymorth Rhodd yn gallu dangos trywydd archwilio o ddatganiadau Cymorth Rhodd ddilys a roddwyd gan eich rhoddwyr i'r rhoddion y mae ad-daliad treth wedi'i hawlio ar eu cyfer. Chi sydd i benderfynu sut bydd eich elusen yn gwneud hyn ac mae nifer o becynnau meddalwedd ar gael ar y farchnad i'ch helpu. Dylid cadw cofnodion Cymorth Rhodd am gyfnod o bedair blynedd yn dilyn y rhodd diwethaf (chwe blynedd yn flaenorol), ac ynghylch datganiadau sy'n eich caniatáu i hawlio Cymorth Rhodd ar roddion yn y dyfodol, bydd angen ichi gadw tystiolaeth benagored. Yn ei ffurf symlaf, byddai trywydd archwilio ar gyfer Cymorth Rhodd yn cynnwys copi o dderbynneb y rhodd, datganiad a chopi o slip talu mewn y banc.

Datganiad Cymorth Rhodd

Rhaid i bob rhoddwr roi hawl i'r elusen adennill Cymorth Rhodd ar eu rhoddion; gellir cadw'r dystiolaeth hon ar nifer o wahanol fformatau cyn belled â bod yr un wybodaeth 'graidd' wedi'i chasglu. Gellir cael y wybodaeth hon yn bersonol, dros y ffôn, drwy'r wefan, ffacs neu e-bost.

Rhaid i'r datganiad gynnwys:

- Enw eich elusen
- Enw'r rhoddwr - teitl, enw bedydd a chyfenw neu lythrennau a chyfenw
- Cyfeiriad cartref y rhoddwr - DS rhaid iddo fod yn gyfeiriad cartref yn hytrach na chyfeiriad gwaith. Rhaid cynnwys o leiaf enw neu rif y tŷ a'r côd post.
- Gwerth y rhodd(ion) i'w roi yn y datganiad - gall fod yn gymwys ar gyfer rhoddion unigol, rheolaidd neu gyfnodol. Gall un datganiad fod yn gymwys ar gyfer pob rhodd a wneir i'ch elusen yn y pedair blynedd diwethaf a phob rhodd yn y dyfodol.
- Cadarnhad bod y rhoddwr wedi talu digon o dreth (incwm neu enillion cyfalaf) yn y flwyddyn ariannol i gyfateb i'r swm a adhawlir gan yr elusen.

Mae'r geiriau canlynol yn disgrifio hyn yn y ffordd symlaf:

"Er mwyn bod yn gymwys i fanteisio ar Gymorth Rhodd, mae'n rhaid i chi dalu swm o dreth incwm neu dreth enillion cyfalaf sydd o leiaf gymaint â'r hyn y byddwn ni [yr elusen] yn ei hawlio yn y flwyddyn dreth (25c am bob £1 a roddir ar hyn o bryd)."

Gellir lawrlwytho ffurflenni enghreifftiol rhoddion Cymorth Rhodd a Noddi Cymorth Rhodd o wefan Giving Wales.

Datganiadau Cymorth Rhodd llafar

Pan roddir datganiadau Cymorth Rhodd ar lafar, rhaid anfon cadarnhad ysgrifenedig i'r rhoddwr gydag opsiwn diddymu'r datganiad. Yr amser a ganiateir i hyn yw 30 diwrnod, ac ni ddylid hawlio Cymorth Rhodd ar y rhodd yn ystod y cyfnod yma.

Enghreifftiau o ddatganiadau cofnodion boddhaol:

- Datganiadau ysgrifenedig Cymorth Rhodd
- Cadarnhad ticio blwch, er enghraifft ar ffurflenni noddi gydag enw'r rhoddwr (o leiaf llythyren a chyfenw); a chyfeiriad preswyl (o leiaf enw neu rif y tŷ a'r côd post)
- Cofnodi datganiad gan y rhoddwr neu gofnodi'r rhoddwr yn cadarnhau'r datganiad os yw'r datganiad wedi'i gofnodi eisoes gan yr elusen.
- Llythyr yn cadarnhau manylion datganiad llafar gan gynnwys y cyfnod 30 diwrnod
- Cofnod cyfrifiadur o enghraifft datganiad a gwblhawyd gan y rhoddwr ac sy'n cynnwys cyswllt gyda manylion banc y rhoddwr.
- Copi e-bost o ddatganiad
- Print cyfrifiadur o'r datganiad a anfonwyd at yr elusen
- Delwedd a sganiwyd o'r datganiad
- Copi o neges destun ffôn symudol yn cadarnhau'r datganiad.

Cadw Cofnodion a hawlio'r dreth

Y ffordd orau o gadw cofnodion Cymorth Rhodd yw cael un ddalen gofnodi rydd ar gyfer pob rhoddwr a thaflen grynodeb ar wahân ar gyfer cyfrifo cyfanswm yr hawliadau. Does dim rhaid i chi ddefnyddio cyfriflyfr iawn, cyn belled â bod gennych ddigon o golofnau i gofnodi'r holl wybodaeth y mae angen i chi ei chadw. Ar ddalen eich rhoddwr, dylech chi gofnodi:

- Pob rhodd gan y person hwnnw – dyddiad a swm
- Y dull rhoi bob tro
- Pwrpas y rhodd (hy cyffredinol neu gronfa gyfyngedig)

Gair o Gyngor ar Gadw Cofnodion: Bydd system cadw cofnodion da yn golygu y bydd hi'n syml iawn paratoi eich trefnlen, cael gafael ar y ffigurau iawn i'w rhoi ar ffurflen R68(i) HMRC a hawlio'r dreth yn ôl. Os ydych yn llenwi'r ffurflen hawlio R68(i), bydd y cyfrifo yn awtomatig.

Cewch hawlio cyn amled ag y dymunwch, ond os ydych yn hawlio mwy nag unwaith y flwyddyn, rhaid i chi hawlio am o leiaf £100. Mae rhai elusennau yn aros tan ddiwedd y flwyddyn, eraill yn anfon hawliad bob chwarter, neu'n amlach, er mwyn helpu'r llif arian. Os ydych chi'n derbyn rhodd anarferol o fawr, efallai y byddwch chi eisiau hawlio ar unwaith. Os oes gennych chi Apêl ar waith, byddwch eisiau amseru'r broses hawlio

er mwyn cyd-fynd â chynnydd y prosiect. Bydd yr HMRC yn gallu talu'r arian a hawlir yn ôl gennych yn uniongyrchol i gyfrif banc eich elusen.

Archwiliad Cymorth Rhodd

Mae hawl gan Uned Archwilio HMRC gario allan archwiliadau elusennau i wirio fod yr hawliau yn gywir a bod trywydd archwilio clir. HMRC sy'n penderfynu pwy i archwilio gan ddefnyddio proses asesu risg yn seiliedig ar, er enghraifft, broblemau a welir mewn hawliau elusen; cynnydd cyflym mewn hawliau gan elusen; dim archwiliad blaenorol gan HMRC; gwybodaeth gan staff HMRC am elusen; gwybodaeth gan y cyhoedd / yn y wasg am bryderon ynghylch hawliau Cymorth Rhodd elusen.

Bydd yr archwilydd yn:

- Adolygu cofnodion, systemau a dulliau gweithredu cyfrifo
- Gwirio cyfrifo'r hawliau
- Gwirio geiriad y datganiadau
- Gwirio fod datganiadau Cymorth Rhodd a ffurflenni noddi yn ddilys
- Gwirio cofnodion banc

Lefel camgymeriad *de minimis*
Ni fydd elusennau sy'n hawlio Cymorth Rhodd llai na £2,500 yn cael eu cosbi am gamgymeriadau llai na 4%.

Mae HMRC yn barod i roi cyngor i elusennau newydd (neu elusennau sy'n gweithredu newidiadau yn y system. Gofynnwch i HMRC am gyngor.

Mwy o wybodaeth

Cymru'n Rhoi
Llinell gymorth 0800 2888 329
givingwales@wcva.org.uk

Cynllun rhoi drwy'r gyflogres
www.charitablegiving.co.uk

Institute of Fundraising
www.tax-effectivegiving.org.uk

HMRC Charities
Llinell gymorth 0845 302 0203
charities@hmrc.gov.uk
www.hmrc.gov.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:01/07/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk